# PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION

## Cofnodion y Cyfarfod gynhaliwyd ar 7 Mawrth, 2012

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd J. Arwel Roberts – Cadeirydd<br><br>Cynghorwyr W.J. Chorlton, Lewis Davies, Jim Evans, Kenneth P. Hughes, T.H. Jones, Clive McGregor, R.L. Owen, Eric Roberts, H.W. Thomas, John P. Williams. |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Datblygu Cynllunio (DFJ),<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Uchel Beiriannydd (Rheoli Datblygu) (EJ),<br>Swyddog Rheoli Datblygu (RE),<br>Cymhorthydd Cynllunio (AG),<br>Cymhorthwyr Gweinyddol (Cynllunio) (MG) (AH),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH),<br>Cymhorthydd Gweinyddol (SWJ). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd E.G. Davies |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr R.Ll. Hughes (12.1), G.O. Parry MBE (7.2) |

---

**1. YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd E.G. Davies.

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyniwyd y datganiadau o ddiddordeb a'u cofnodi o dan yr eitemau perthnasol.

**3. COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 4 Ionawr 2012.

**4. YMWELIADAU SAFLE**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd - cofnodion yr Ymweliadau Safle a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2012.

Dywedodd y Cadeirydd iddo fod yn bryderus ynglŷn â'r ymweliad i'r safle yn Rhos Isaf, Llanddona.  Tra nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i bobl fod eisiau protestio, roedd y sefyllfa yn y safle yn beryglus gyda phrotestwyr a phlant yn y ffordd fawr ac roedd risg o niwed. Ategwyd ei bryderon gan aelodau o'r llawr.

**5. Y CYHOEDD YN SIARAD**

Dywedodd y Cadeirydd y byddai aelodau'r cyhoedd yn siarad yng nghyswllt ceisiadau cynllunio rhif 7.2, 12.4 a 12.7.

**6. CEISIADAU A OHIRIWYD**

**6.1 19C1046A/EIA/ECON – Cais amlinellol ar gyfer datblygiad defnydd cymysg gyda marina newydd, eiddo preswyl, gwesty, defnyddiau masnachol, hamdden ac adwerthu a hefyd adennill tir ac isadeiledd gwasanaethu – Holyhead Waterfront, Caergybi.**

Bu'r cais gerbron y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn gydag argymhelliad y dylai'r Aelodau ymweld â'r safle oherwydd ei faint, ei leoliad a lefel y diddordeb yn lleol. Ymwelwyd â'r safle ar 15 Chwefror 2012.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio nad oedd yr ymgeisydd wedi cyflwyno'r wybodaeth ychwanegol o fewn y cyfnod amser penodol ac felly ni fyddai'n bosibl ystyried y cais a byddai'n rhaid ei ohirio er mwyn gwneud gwaith ymgynghori pellach.

Cynigiodd y Cynghorydd W.J. Chorlton ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Eric Roberts y dylid gohirio'r cais.

**PENDERFYNWYD gohirio'r cais fel uchod.**

Ni chymerodd y Cynghorydd J.P. Williams ran yn y drafodaeth na'r pleidleisio ar y cais gan nad oedd yn bresennol yn ystod yr ymweliad safle.

## 7. CEISIADAU'N CODI O'R COFNODION

### 7.1 22C206 – Codi mast anemomedr 40.5m o uchder dros dro ar dir i'r de o Rhos Isaf, Llanddona.

*Datganodd y Cynghorydd T.H. Jones ddiddordeb ac aeth allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio ar y cais.*

Fe adroddwyd ar y cais hwn i gyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn pryd y penderfynwyd gohirio'r cais fel y gellid cynnal ymweliad safle. Ymwelwyd â'r safle ar 15 Chwefror 2012 a byddai'r Aelodau bellach yn gyfarwydd â'r safle.

Dywedodd yr Aelod Lleol y Cynghorydd H.W. Thomas ei fod yn falch bod Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio wedi ymweld â'r safle ac y byddent bellach yn gwybod bod y lleoliad i'w weld o sawl lle ar yr Ynys ac ar draws Afon Menai. Dywedodd bod adroddiad y Swyddog rhyw ychydig yn gamarweiniol; roedd yr adroddiad yn nodi mai dim ond 8 llythyr o wrthwynebiad a gafwyd. Fel aelod lleol, nododd ei fod ef wedi derbyn tua 50 o lythyrau'n gwrthwynebu'r cais ac roedd yn siŵr bod yr awdurdod cynllunio wedi derbyn ychydig yn fwy nag 8 llythyr o wrthwynebiad.

Dywedodd y Cynghorydd Thomas fod yna wrthwynebiad cryf yn lleol i'r cais hwn. Cafwyd cyfarfod cyhoeddus ym mhentref Llanddona cyn y Nadolig gyda thros 150 o bobl yn bresennol. Roedd Cyngor Cymuned Llanddona hefyd yn hollol wrthwynebus i'r cynllun. Mae'r ardal o fewn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Nododd mai cais oedd hwn am anemomedr am gyfnod o ryw 18 mis ond roedd yn teimlo y byddai cais am dyrbin gwynt neu hyd yn oed am fferm dyrbinau gwynt yn dod i'r amlwg ar ôl hynny yn y lleoliad hwn. Roedd Asesiad Effaith Amgylcheddol wedi'i gomisiynu yn yr ardal am dyrbin gwynt ychydig o fisoedd yn ôl. Dywedodd y Cynghorydd Thomas bod yna 2 fast yn barod yn Llanddona a bod y trigolion lleol yn teimlo mai 'digon yw digon'.

Cytunodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod llythyrau eraill yn gwrthwynebu wedi cael eu derbyn gan yr adran gynllunio a'u bod ynghlwm yn y ddogfen 'Sylwadau Dderbyniwyd' i sylw'r Aelodau. Pwysleisiodd y dylai'r Pwyllgor ystyried y cais hwn fel un am fast anemomedr 40.5m o ucher a dim byd arall. Roedd yn derbyn y sylwadau oedd wedi'u gwneud gan yr aelod lleol nad oes yna ond un rheswm dros gael mast mesur gwynt ac mai'r rheswm am hynny oedd i weld beth fyddai'r posibilrwydd o gael tyrbinau gwynt yn y dyfodol. Roedd y Swyddogion wedi asesu'r effaith ar y dirwedd ac wedi dod i'r casgliad mai dim ond effaith weddol ddrwg fyddai hyn yn ei gael ar yr ardal. Oherwydd bod y cais yn dweud na fydd yr anemomedr ond yn cael ei godi am 18 mis roedd y Swyddogion wedi dod i'r farn na allai'r effaith amgylcheddol gyfiawnhau iddynt wneud argymhelliad o wrthod.

Dywedodd y Cynghorydd K.P. Hughes ei fod yn parchu sylwadau'r aelod lleol ond y cais oedd gerbron y Pwyllgor Cynllunio heddiw oedd cais i godi anemomedr. Dywedodd nad oedd yn

derbyn y dadleuon roddwyd gerbron gan berchennog Rhos Isaf yn dweud y byddai'r anemomedr yn cael effaith negyddol ar werth ei eiddo. Cynigiodd y Cynghorydd K.P. Hughes bod y cais yn cael ei ganiatáu.

Dywedodd y Cynghorydd Clive McGregor ei fod wedi gwrando'n ofalus ar y drafodaeth a dywedodd ei fod yn teimlo nad oedd hwn yn benderfyniad hawdd i'w wneud. Fodd bynnag, roedd yn cytuno gyda'r Swyddog mai'r hyn oedd gerbron y Pwyllgor oedd cais am anemomedr ac felly eiliodd bod y cais yn cael ei ganiatáu.

Dywedodd y Cynghorydd R.L.Owen bod yr ardal hon yn Llanddona yn un o'r pwyntiau uchaf ar Ynys Môn a'i fod i'w weld am filltiroedd. Roedd yn credu y byddai'n sarhad ar yr Ynys i godi anemomedr ar y tir hwn. Roedd yn credu mai canlyniad hyn oll fyddai codi tyrbin gwynt ar y safle hwn yn y dyfodol agos. Cynigiodd y Cynghorydd Owen bod y cais yn cael ei wrthod, a hynny'n groes i argymhelliad y Swyddog. Cytunodd y Cynghorydd W.J. Chorlton mai pendraw'r cynnig hwn fyddai gweld tyrbin gwynt ar y safle ac felly eiliodd y cynnig i'w wrthod.

Dywedodd y Cynghorydd Lewis Davies ei fod yn cefnogi ynni cynaliadwy ond bod yn rhaid i hynny fod mewn lleoliadau addas h.y. yn y môr neu mewn ardaloedd lle nad yw'n cael effaith andwyol ar y dirwedd a lle na allai gael effaith ar dwristiaeth. Roedd gwrthwynebiad lleol cryf wedi'i fynegi yn yr ardal ynglŷn â'r cais hwn. Mae yna ddau fast arbennig o fawr yn Llanddona yn barod ac roedd y posibilrwydd y byddai tyrbin gwynt arall yn cael ei godi yn yr ardal yn y dyfodol wedi achosi pryderon o safbwynt ei effaith ar iechyd y gymuned leol. Cwestiynodd y Cynghorydd Davies a oedd arolwg ecolegol wedi'i gynnal ar yr effaith gai'r anemomedr ar adar yn ymfudo; a wnaed arolwg daearyddol o'r effeithiau ar y dirwedd ac a wnaed arolwg ar effaith weledol yr anemomedr ar y dirwedd.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio ei fod yn derbyn bod yna wrthwynebiad cryf yn lleol i'r cais hwn. Fodd bynnag, roedd y Cyfarwyddyd Polisi Cynllunio i Gymru yn dweud ym Mharagraff 3.1.3.8 - *when deterimating planning applications, local planning authorities must take into account any relevant views on planning matters expressed by neighbouring occupiers, local residents and any third parties. Whilst the substance of local views must be considered, the duty is to decide each case on its planning merits. As a general principle, local opposition or support for a proposal is not on its own a reasonable ground for refusing/granting a planning permission. Objections or support must be based on valid planning considerations.'* Roedd y Rheolwr Datblygu Cynllunio eisiau egluro nad oedd y Swyddogion wedi dweud na fyddai'r anemomedr yn cael unrhyw effaith ar y dirwedd. Bu'r awdurdod cynllunio yn hollol agored o'r dechrau gan ddweud mai effaith weddol andwyol fyddai'r anemomedr yn ei gael ar y dirwedd. Fe gymerwyd agwedd gytbwys oherwydd mai dim ond am gyfnod dros dro y byddai'r anemomedr i fyny ac nid oedd ei effaith ar y dirwedd yn ddigon i gyfiawnhau gwrthod y cais. Roedd y pleidleisio fel a ganlyn:-

Gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Swyddog :-

Cynghorwyr W.J. Chorlton, Lewis Davies, Jim Evans, R.L. Owen, Eric Roberts, J. Arwel Roberts. **Cyfanswm 6**

Caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog:-
Cynghorwyr K.P. Hughes a Clive McGregor. **Cyfanswm 2**

Y rhesymau a roddwyd tros wrthod y cais oedd bod yr Aelodau yn teimlo y byddai'r anemomedr yn ddolur llygad yn yr ardal ac y byddai ei effaith weledol yn un eithaf niweidiol.

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais a hynny'n groes i argymhelliad y Swyddog.**

**Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, roedd y cais yn cael ei ohirio'n otomatig i'r cyfarfod nesaf i roi cyfle i Swyddogion baratoi adroddiad ar y rhesymau tros wrthod y cais.**

Gofynnodd y Cynghorydd J.P. Williams iddo gael ei gofnodi na chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth nac yn y pleidleisio gan nad oedd wedi bod yn bresennol yn ystod yr ymweliad safle.

**7.2 43C11T – Cais llawn i godi adeilad hamdden gyda dau bwll nofio, caffi a swyddfa a gym ar y llawr cyntaf ym Mhentref Gwyliau Traeth Llydan, Pentre Gwyddel, Rhoscolyn.**

*Datganodd y Cynghorydd Eric Roberts ddiddordeb ac aeth allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio ar y cais.*

Fe adroddwyd am y cais hwn i gyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn pryd y penderfynwyd gohirio gwneud unrhyw benderfyniad arno fel y gellid cynnal ymweliad safle. Ymwelwyd â'r safle ar 15 Chwefror 2012 a byddai'r Aelodau bellach yn gyfarwydd â'r safle.

Rhoddodd y Cadeirydd wahoddiad i Ms. Alison Wearne annerch y cyfarfod fel un oedd yn gwrthwynebu'r cais. Dywedodd Ms. Wearne ei bod hi a nifer o bobl leol yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig oherwydd y tagfeydd a'r perygl y byddai'r cynnydd anorfod mewn traffig yn ei greu, yn ogystal â'r difrod i'r lonydd bychan cul trac sengl. Roedd dadleuon yr ymgeisydd tros ganiatáu'r datblygiad yn anghywir ac y roedd rhai ohonynt yn gamarweiniol. Maent yn dweud nad yw'r diffyg cyfleusterau hamdden a chroeso yn boblogaidd gyda chwsmeriaid y cwmni, ond os felly pam mai dim ond naw o bobl allan o'r 150 o unedau wnaeth arwyddo'r ddeiseb i'w gael? Mae'r ymgeiswyr yn dweud nad yw'r sefyllfa dros dro bresennol lle nad oes unrhyw garafannau symudol, yn un gynaliadwy, gan fynd ymlaen i fygwth symud yn ôl i ddefnyddio 75 o safleoedd carafannau symudol i sicrhau, fel y maent hwy yn ei ddweud 'trosiant ymarferol. Mewn gwirionedd, mae eu cyfrifon (y gall unrhyw un eu gweld ar y rhyngrwyd), yn dangos pictiwr o dŵf graddol o flwyddyn i flwyddyn. Ni fyddai yna unrhyw synnwyr busnes o fath yn y byd mewn troi'r penderfyniad wnaed ganddynt ryw 10 mlynedd yn ôl i symud i ffwrdd oddi wrth garafannau symudol i lojis. Maent hefyd wedi honni y dylai rhoi'r 75 safle symudol (diddefnydd) i fyny cyd-bwyso'r traffig fyddai'n cael ei gynhyrchu gan 400 o aelodau'r clwb. Mae hyn y tu hwnt i reswm. Felly hefyd eu honiad y byddai traffig yn gostwng ym misoedd yr haf (ac y maent yn seilio hynny ar safle yng nghanol y wlad yn Sir Derbyshire ). Maent wedi bod yn glyfar i beidio gwneud unrhyw gyfeiriad at ddefnydd y 400 aelod o lan y môr Traeth Llydan. Gyda'r traethau cyhoeddus lleol yn llawn dop, pe bai aelodaeth y clwb yn cynnwys mynediad i'r traeth hwn, fe fyddai'n draed moch yno yn yr haf.

Nid yw datganiad yr ymgeisydd y dylid caniatáu'r cais hwn oherwydd i'r Pwyllgor ganiatáu'r datblygiad ym Mhlas Coch, yn gymhariaeth deg. Nid yw Plas Coch ond yn cymryd lojis a dim carafannau symudol ac ni yw'r ganolfan hamdden yn cymryd aelodau o'r tu allan. Dywedodd Ms. Wearne ymhellach nad oedd yr ymgeisydd wedi bod yn hollol agored yn gwrthod darparu mynedfa arall trwy ei stad yn Bodior. Mae yna ffordd ar hyn o bryd sydd yn mynd fwy neu lai yr holl ffordd i'r safle ac sydd wedi ei marcio'n glir ar fapiau Arolwg Ordnans. Mae ymhell o styrbio tir sensitif heb ei ddatblygu fel y maent hwy'n ei honni, ac mae'n dilyn dreif Bodior ei hun y rhan fwyaf o'r ffordd, ac wedyn trac fferm sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth ac yn rhedeg ar draws dau gae. Byddai defnyddio'r ffordd hon wedi bod yn rhywbeth hawdd i'w wneud, ac ni fyddai'n creu unrhyw anghyfleustra na bygythiad i bobl leol nac i'r amgylchedd. Am y rhesymau hyn, roedd Ms. Wearne yn cymell y Pwyllgor yn gryf i wrthod y cais.

Gwahoddodd y Cadeirydd Mr. Roger Langham i annerch y cyfarfod fel un oedd yn cefnogi'r cais. Dywedodd Mr. Langham mai'r prif wrthwynebiad i'r cynnig fu un o safbwynt diogelwch y briffordd. Anfonwyd ymgynghoriad allan fis Tachwedd i'r Adran Briffyrdd a chafwyd ateb nad oedd gan yr Adran Briffyrdd unrhyw wrthwynebiad i'r cynigion. Yn dilyn y llythyrau a gafwyd yn gwrthwynebu, roedd yr Adran Priffyrdd wedi penderfynu galw'r cais yn ôl i mewn i'w ailystyried ac fe roddodd y Prif Beiriannydd ymateb diwygiedig ym mis Rhagfyr y flwyddyn ddiwethaf. Dywedodd iddo gydnabod y llythyrau oedd yn gwrthwynebu a'i fod yn ystyried na fyddai cyfyngu'r aelodaeth i 400 person a rhoi'r 75 llecyn i garafannau symudol i fyny yn cael effaith fyddai'n sylweddol fwy na'r defnydd a ganiatawyd i'r safle. Yn ogystal â chefnogaeth yr Adran Briffyrdd, roedd Adran Ddraenio'r Awdurdod, Dŵr Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Iechyd Amgylcheddol a Chyngor Cefn Gwlad Cymru i gyd yn fodlon gyda'r cynnig yn dilyn ymgynghori ac roedd y Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol hefyd wedi argymell caniatáu'r cais.

Mynegodd Mr. Langham bod y swyddogion cynllunio wedi nodi yn eu hadroddiad mai'r effaith ar yr Ardal o Harddwch Naturiol fyddai un o wella'r ardal yn gyffredinol oherwydd colli'r llecynnau i garafannau symudol a'u newid am yr adeilad hwn oedd wedi'i ddylunio a'i leoli'n ofalus. Un gwrthwynebiad arall oedd bod yna bwll nofio o fewn 4 milltir i'r datblygiad hwn. Roedd hyn yn cyfeirio at y pwll yng Ngwesty Trearddur sydd ond yn agored i rai'n aros yn y gwesty a dim i aelodau o'r tu allan. Bwriad y cyfleuster hamdden newydd yw darparu adnodd lleol gwerthfawr i bobl fynd iddo.

Rhoddodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Cynghorydd G.O. Parry MBE, oedd yn cynrychioli'r aelod lleol, siarad gerbron y cyfarfod. Dywedodd y Cynghorydd Parry ei fod wedi darllen yr ohebiaeth gan y trigolion lleol ynglŷn â'r effaith a gai'r datblygiad ar y lôn gul sengl oedd yn arwain i safle'r cais arfaethedig. Nododd ei bod yn bechod o beth i'r ymweliad safle gael ei gynnal yn ystod misoedd y gaeaf ac nid yn yr haf pryd y gallai'r Aelodau fod wedi gweld y tagfeydd arbennig sy'n digwydd ar y ffordd hon. Roedd traffig trwm yn ystod y cyfnod adeiladu yn bryder mawr ac roedd awgrymiadau am ffordd arall oddi ar y ffyrdd presennol ar dir ym mherchnogaeth stad Bodior wedi'u gwneud. Bu pryderon hefyd ynglŷn â'r difrod i'r cloddiau; roedd y rhain wedi'u niweidio yn barod oherwydd y traffig trwm sy'n teithio ar y ffordd, fel y lorïau anferth sy'n cario'r cabanau ac sy'n creu anghyfleustra i bobl leol sy'n ceisio defnyddio'r ffordd. Ni fwriadwyd y ffordd erioed i gymryd traffig trwm a bydd y datblygiad hwn yn ychwanegu at y prysurdeb presennol ac at y styrbans i'r trigolion lleol.

Dywedodd Mr. Parry bod preswylwyr stad Pentre Gwyddel wedi lleisio eu pryderon y byddai'r cynnig, pe cai' ei gymeradwyo, yn cael effaith andwyol ar eu bywydau ac ar y cefn gwlad oddi amgylch.

Roedd awyren jet wedi disgyn yn yr ardal hon rhyw ddeuddeg mlynedd yn ôl ac fe welwyd tagfeydd traffig difrifol ar y ffyrdd. Dywedodd bod yna bryderon hefyd am yr arogleuon sy'n dod o garthffosiaeth y parc carafannau a bod angen rhoi sylw i'r mater hwn. Holodd ymhellach a fyddai'r ffi aelodaeth yn cynnwys yr hawl i ddefnyddio'r traeth a'r clybiau ar y safle. Os felly, byddai'n gwneud ffwlbri o'r symudiadau traffig oedd yn cael eu hawgrymu oherwydd fe allai wneud y safle yn fwy deniadol a chynyddu'r ymweliadau ar frig y tymor ymwelwyr. Dywedodd y Cynghorydd Parry ei fod yn gobeithio y byddai'r Pwyllgor yn gosod amodau fyddai'n lliniaru peth ar bryderon preswylwyr lleol ynglŷn â'r cais hwn.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio iddo gael ei nodi yn ystod yr ymweliad safle ar 15 Chwefror fod lefel yr adeilad yn is na'r tir oedd yng nghefn y safle. Roedd yr Aelodau hefyd wedi edrych ar y parc carafannau ar y safle ac fe allodd y Pwyllgor weld popeth oedd ynglŷn â'r cais hwn. Dywedodd mai cais ydoedd am gyfleuster hamdden a bod yr ymgeisydd yn cynnig aelodaeth i hyd at 400 o rai nad ydynt yn byw ar y safle. Un amod ar unrhyw ganiatâd fyddai bod angen rheoli hyn. Roedd yn ystyried mai'r prif fater o bryder i'r trigolion lleol, yn ôl pob golwg, oedd materion traffig. Roedd y trigolion i'w gweld fel pe baent yn meddwl bod yr adeilad ei hun yn dderbyniol. Cadarnhaodd y Swyddog y byddai'r caniatâd presennol am 75 o garafannau symudol yn cael ei ddileu pe bai'r cais hwn yn cael ei ganiatáu. Roedd yn credu bod y ffordd gul ger y safle hwn i'w gweld yn un brysur er i'r ymweliad safle gael ei gynnal yn ystod misoedd y gaeaf ond nid oedd hyn i'w weld fel pe bai'n tarfu ar lîf y traffig.

Nododd y Cynghorydd W.J. Chorlton bod yn rhaid ystyried y cais yn unol â materion cynllunio. Nododd ei fod yn cytuno gyda'r Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y ffordd yn arbennig o brysur ar ddiwrnod yr ymweliad safle ond eto ni chafwyd unrhyw broblemau arbennig wrth deithio ar y ffordd. Dywedodd y byddai'n falch iawn o allu cefnogi trigolion yr ardal gyda'r cais hwn ond nid oedd yn credu bod yna unrhyw reswm y gellid ei gyfiawnhau tros ei wrthod.

Holodd y Cynghorydd R.L. Owen a oedd yr Adran Priffyrdd wedi ystyried cael mwy o lefydd 'tynnu i mewn' ar y ffordd arbennig hon. Dywedodd yr Uchel Beiriannydd (Rheoli Datblygu) mai pwrpas asesiadau traffig oedd mesur y defnydd cyfreithlon a wneir o'r safle ar hyn o bryd a'r defnydd fyddai'n cael ei wneud gan draffig yn y dyfodol. Roedd yn credu y byddai dileu'r carafannau symudol o'r datblygiad yn gwella pethau o safbwynt y briffordd.

Cynigiodd y Cynghorydd W.J. Chorlton bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd K.P. Hughes.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau oedd yn ei adroddiad.**

Gofynnodd y Cynghorwyr H.W. Thomas a J.P. Williams iddo gael ei gofnodi nad oeddent wedi cymryd unrhyw ran yn y mater hwn oherwydd nad oeddent wedi bod yn bresennol ar yr ymweliad safle.

**8 CEISIADAU ECONOMAIDD**

Nid oedd unrhyw Geisiadau Economaidd wedi'u cyflwyno i'w penderfynu.

**9 CEISIADAU TAI FFORDDIADWY**

Nid oedd unrhyw Geisiadau am Dai Fforddiadwy wedi'u cyflwyno i'w penderfynu.

**10 CEISIADAU'N TYNNU'N GROES**

**10.1 24C268D – Adnewyddu caniatâd cynllunio amlinellol rhif 24C268A i godi annedd ynghyd ag adeiladu mynedfa newydd a gosod gwaith trin preifat ar dir ger Gwelfor, Cerrigman**

Adroddwyd bod y cais hwn yn un oedd yn tynnu'n groes i'r cynllun datblygu gyda'r awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu ei ganiatáu.

Cynigiodd y Cynghorydd W. J. Chorlton bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd R. L. Owen.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau oedd yn ei adroddiad.**

**10.2 33C125H – Cais amlinellol i ddymchwel yr annedd bresennol a'r garej ynghyd â chodi dwy annedd yn Cynlas, Gaerwen**

Dywedwyd bod y cais hwn yn un oedd yn tynnu'n groes i Gynllun Lleol Ynys Môn ond y gellid ei gefnogi o dan y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd.

Cynigiodd y Cynghorydd W. J. Chorlton bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Clive McGregor.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau oedd yn ei adroddiad.**

**10.3 35C262B – Cais llawn i godi annedd, gosod gwaith trin a chreu mynedfa newydd i gerbydau ar blot yn Fferm Llanfaes, Llangoed**

Dywedwyd bod y cais hwn yn un oedd yn tynnu'n groes i'r polisi cynllunio a fabwysiadwyd.

Dywedodd y Cynghorydd Lewis Davies, yr Aelod Lleol nad oedd yn erbyn y cais oherwydd iddo gael caniatâd cynllunio amlinellol yn 2007, er bod hynny yn erbyn argymhelliad y Swyddog. Pryder y trigolion lleol oedd bod y cais ar ddarn o dir corsiog ac y gellid cael problemau draenio yn yr ardal. Yn dilyn gwerthu'r plot adeiladu, mae'r cais hwn yn un am annedd lawer mwy gyda hynny'n cael effaith ar y dirwedd ac roedd ei ddyluniad hefyd yn wahanol i'r rhai eraill oedd yn y parthau. Prif gonsyrn y trigolion lleol yw'r ffordd sy'n arwain at yr annedd arfaethedig. Mae'r ffordd hon yn arwain i Ysgol Gynradd Llangoed gyda phlant ifanc yn cerdded ar hyd-ddi i'r ysgol. Roedd y Cynghorydd Davies yn dymuno iddo gael ei gofnodi nad yw'r trigolion lleol yn hapus bod y cais wedi cael ei ganiatau yn arbennig oherwydd y sefyllfa gyda'r ffordd. Pe bai yna ddamwain yn digwydd, dywedodd y byddai ef fel yr Aelod Lleol a'r trigolion lleol wedi lleisio eu pryderon. Mae'r ffordd yn yr ardal hon yn gul iawn ac nid yw'n bosibl lledu'r ffordd ac nid oes yna chwaith lefydd i geir basio ei gilydd.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod yr Awdurdod Cynllunio yn erbyn y datblygiad yn 2007 ond i'r Pwyllgor Cynllunio roi caniatâd yn erbyn argymhellion y Swyddog. Nododd bod caniatâd cynllunio'n bodoli ar y tir ac mai cais oedd hwn i gael newid edrychiad yr annedd oedd i'w hadeiladu ar y safle. Roedd y Swyddog Cynllunio yn argymell y dylid caniatáu'r cais.

Cynigiodd y Cynghorydd W. J. Chorlton bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Eric Roberts.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau oedd yn ei adroddiad.**

Roedd y Cynghorydd Hefin W. Thomas yn dymuno iddo gael ei gofnodi na chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth nac yn y pleidleisio ar y cais hwn.

**10.4 45C207G – Cais amlinellol i godi annedd ar dir ger Abernant, Penlon, Niwbwrch**

Dywedwyd bod y cais hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor oherwydd ei fod yn groes i Gynllun Lleol Ynys Môn ond yn un y gellid ei gefnogi o dan y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd W. J. Chorlton.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau oedd yn ei adroddiad.**

**11 CYNIGION DATBLYGU GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION**

Nid oedd unrhyw geisiadau i'w hystyried yn y Pwyllgor hwn.

**12 GWEDDILL Y CEISIADAU**

**12.1 15C35F – Cais amlinellol i godi annedd, adeiladu mynedfa i gerbydau a gosod tanc septig ar dir ger Tyddyn Bwrtais, Llangadwaladr**

Yr Aelod Lleol oedd wedi gofyn am i'r cais hwn gael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w benderfynu.

Dywedodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd R. Ll. Hughes mai'r rheswm yr oedd wedi galw'r cais hwn i mewn i'w benderfynu gan y Pwyllgor oedd o dan Bolisi 50 Cynllun Lleol Ynys Môn. Roedd annedd gyferbyn â safle'r cais hwn wedi'i chymeradwyo yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Roedd yn credu y byddai'r annedd arfaethedig yn cyfateb i fewn lenwi sensitif yn yr ardal ac fe allai ymweliad safle gan y Pwyllgor fod o fantais er mwyn i'r aelodau ddod yn gyfarwydd â'r ardal.

Roedd y Rheolwr Datblygu Cynllunio yn dymuno diweddaru'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor a dweud bod Cyngor Cymuned Bodorgan bellach wedi mynegi eu bod yn cefnogi'r cais oherwydd ei fod o fewn ffin y pentref a bod y fynedfa i'r safle o fewn y cyfyngiad cyflymder 40mya, ynghyd â'r annedd newydd gyferbyn â'r safle.

Dywedodd ymhellach bod Polisi 50 Cynllun Lleol Ynys Môn yn dweud y gellir cymeradwyo anheddau os ydynt o fewn neu ar ffiniau pentrefi, ar yr amod nad ydynt yn cael effaith niweidiol ar y dirwedd. Fe wrthodwyd y cais hwn chwe gwaith i gyd. Roedd y Swyddogion yn ystyried nad yw'r plot hwn yn cyfateb i fewnlenwi o fewn y pentref; mae'n ymestyn i mewn i'r cefn gwlad ac i mewn i'r AHNE. Mae'r safle yn agos i glwmp o goed sy'n creu terfyn pendant i'r pentref. Byddai'r fynedfa i'r cais hwn gryn bellter oddi wrth yr annedd.

Cynigiodd y Cynghorydd K. P. Hughes bod y cais yn cael ei wrthod ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd W. J. Chorlton.

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog ac am y rhesymau oedd yn ei adroddiad i'r Pwyllgor.**

**12.2 19C792B – Cais llawn i newid defnydd y llety warden presennol i greu caffi gyda swyddfeydd a lle storio uwchben a gwaith altro ac ymestyn i Lety'r Warden, Parc Gwledig y Morglawdd, Caergybi**

Roedd y cais hwn wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w benderfynu oherwydd bod safle'r cais ar dir y Cyngor.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod angen diwygio'r argymhelliad yn dilyn trafod pethau gyda'r ymgeisydd gyda hynny'n golygu dileu amod (04) sy'n dweud na chaiff yr eiddo fod yn agored i fusnes cyn 8:00am nac ar ôl 6:00pm ar ddyddiau'r wythnos, Sadyrnau a dyddiau Sul.

Mynegodd y Cynghorydd W. J. Chorlton ei siom bod y cais wedi cymryd cymaint o amser cyn cael ei ystyried am ganiatâd cynllunio. Nododd y bydd y cyfleuster yn cyflogi rhai anabl a'i fod yn debyg i'r tolldy a arferai fod ar y cob.

Cynigiodd y Cynghorydd W. J. Chorlton bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Eric Roberts.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau oedd yn ei adroddiad i'r Pwyllgor.**

**12.3 24LPA953/CC - Dymchwel wal gynnal oedd wedi disgyn a'i newid am arglawdd gradd 1 mewn 2, ailwynebu'r maes parcio presennol a chreu 7 lle parcio newydd a gwneud gwaith tirlunio ac altro'r fynedfa bresennol ym Maes Parcio Fagwyr Isaf, Ffordd y Traeth, Llaneilian**

Roedd y cais hwn wedi'i gyflwyno i'w benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion oherwydd mai'r Awdurdod Lleol oedd yn cyflwyno'r cais.

Cynigiodd y Cynghorydd W. J. Chorlton bod y cais yn cael ei ganiatáu ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Eric Roberts.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau oedd yn ei adroddiad i'r Pwyllgor.**

**12.4 35C105E – Gwaith altro ac ymestyn yn Cae Chippy, Llangoed**

*Datganodd y Cynghorydd Lewis Davies ddiddordeb fyddai'n rhagfarnu ond cymerodd fantais o'r eithriad yn y Côd oedd yn caniatáu i aelod gyda diddordeb o'r fath wneud sylwadau mewn achosion lle bo gan y cyhoedd hawl o'r fath yn ogystal. Aeth allan o'r cyfarfod ar unwaith wedi iddo wneud ei sylwadau ac arhosodd y tu allan i'r ystafell am weddill yr eitem.*

Yr Aelod Lleol oedd wedi gofyn am i'r cais gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

Rhoddodd y Cadeirydd wahoddiad i Mr. Dafydd Jones o gwmni Penseiri Russell-Hughes, i siarad gerbron y cyfarfod fel asiant yr ymgeisydd. Dywedodd Mr. Jones bod yr ymgeisydd yn dymuno darparu llofft ychwanegol yn ei gartref oherwydd bod Mr. Davies yn dioddef o anabledd cronig sef 'Rheumatoid Arthritis'. Roedd effaith ei gyflwr yn sylweddol gyda phoenau yn cael eu hachosi gan unrhyw symudiad yn ystod y nos gyda hynny'n cyfyngu'n ddifrifol ar allu Mr. Davies i gael gorffwys a chysgu. Roedd yr adeilad gwreiddiol cyn ei addasu yn arfer bod yn stablau ac ystafell dac a addaswyd yn gartref yn 2010 gydag ystafell fyw, cegin, ystafell fwyta, ystafell gawod ac un llofft gydag arwynebedd llawr mewnol o 50 metr sgwâr. Dywedodd mai annedd fechan ydyw a'i bod yn hollol resymol i'r annedd gael dwy lofft fel y gellir cyflenwi gofynion meddygol ac anghenion byw Mr. Davies a'r teulu. Mae angen Mr Davies am ail lofft

yn cael ei gefnogi'n gryf gan ei Feddyg Cartref yng Nghanolfan Iechyd Biwmares. Roedd ei lythyr o gefnogaeth wedi ei roi gerbron yn y cyfarfod.

Dywedodd Mr. Jones eu bod fel penseiri wedi ceisio creu estyniad deniadol wedi'i osod yn y fath ffordd fel na fydd yn cael effaith ar fwynderau unrhyw eiddo arall o gwmpas. Mae'r estyniad arfaethedig yn llai na'r annedd bresennol ac wedi'i ddylunio i fatsio edrychiad a steil yr adeilad er mwyn cadw o fewn Polisi 55 Cynllun Lleol Ynys Môn a HP8 y CDU a Stopiwyd. Nododd bod cynllun tebyg wedi'i drafod gan y Pwyllgor Cynllunio ym mis Ionawr 2012 pryd y rhoddwyd caniatâd am estyniad a gwaith altro i hen adeilad diddefnydd i greu trydedd lofft yn yr eiddo. Roedd graddfa a maint yr estyniad arfaethedig yn Cae Chippy wedi'i ddylunio fel na fyddai'r cynnydd yn arwynebedd y llawr ond yn 26% o'r adeilad a addaswyd. Roedd y cynnydd cyffredinol yn nhroedbrint yr adeilad allanol gwreiddiol wedi'i gyfyngu i 70%; llai na hanner yr hyn a ganiatawyd yn y cynllun tebyg i hwn gafodd ei ganiatáu gan y Pwyllgor hwn ym mis Ionawr. Roedd y siaradwr yn gobeithio y byddai'r pwyntiau a wnaed ganddo yn gyfiawnhad rhesymol i alluogi i'r Pwyllgor Cynllunio cefnogi'r cais hwn.

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol bod y Cynghorydd Lewis Davies wedi datgan diddordeb rhagfarnol ond ei fod yn ceisio manteisio ar yr eithriad o fewn y Côd oedd yn caniatáu iddo wneud sylwadau yn union fel oedd ar gael i unrhyw aelod o'r cyhoedd. Roedd cynllun siarad cyhoeddus y Cyngor yn caniatáu i'r cyhoedd wneud sylwadau ac felly fe allai'r Cynghorydd Davies hawlio'r eithriad yn y Pwyllgor hwn. Fodd bynnag, byddai'n rhaid iddo adael y cyfarfod unwaith y byddai wedi gwneud ei sylwadau a pharhau y tu allan i'r ystafell am weddill yr eitem.

Nododd y Cynghorydd Lewis Davies mai dim ond mynegi ffeithiau a fyddai i'r Pwyllgor. Dywedodd mai addasiad oedd hwn o dan Bolisi 55 ac nid oedd yr ymgeiswyr ond yn gofyn am estyniad llofft fechan ar yr adeilad presennol. Dywedodd na fyddai'n cael unrhyw effaith niweidiol ar y dirwedd nac ar eiddo cyfagos; ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad yn lleol ac nid oedd gan y Cyngor Cymuned unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad. Roedd y Cynghorydd Davies yn ystyried nad oedd yna unrhyw reolau pendant ynglŷn â faint yn union y gellir ei ychwanegu at estyniad ac roedd yna esiamplau yn ddiweddar o eiddo oedd wedi cael caniatâd cynllunio am estyniadau llawer mwy ar anheddau, a rheini wedi eu caniatáu gan y Pwyllgor hwn. Nododd ymhellach bod yna resymau meddygol cryf wedi'u cyflwyno ynglŷn ag iechyd yr ymgeisydd. Aeth y Cynghorydd Davies allan o'r Siambr yn ystod y trafodaethau gan y Pwyllgor.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio mai addasiad oedd yr annedd sydd ar y safle. Roedd y cais hwn felly yn un am estyniad pellach ac yr oedd hynny y tu hwnt i integriti'r polisïau cynllunio yn ei farn ef.

Dywedodd y Cynghorydd K. P. Hughes ei fod yn credu bod yna annedd eisoes yn bodoli ar y safle a'i bod yn cydymffurfio gyda Pholisi 55 a HP8 o'r CDU a Stopiwyd. Gan nad oedd y cais yn groes i bolisïau cynllunio, cynigiodd bod y cais yn cael ei ganiatáu yn groes i argymhelliad y Swyddog.

Oherwydd materion iechyd yn y teulu, dywedodd y Cynghorydd R. L. Owen ei fod am eilio'r cynnig i ganiatáu, yn groes i argymhelliad y Swyddog.

Cytunodd y Cynghorydd H. W. Thomas fod yna faterion iechyd yn y teulu ac roedd yn ystyried nad oedd hwn ond yn estyniad bychan ar yr eiddo.

Cynigiodd y Cynghorydd W. J. Chorlton ac eiliodd y Cynghorydd Eric Roberts yr argymhelliad i wrthod.

Roedd y pleidleisio fel a ganlyn:

Caniatáu'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog:-

Y Cynghorwyr Jim Evans, K. P. Hughes, T. H. Jones, C. McGregor, R. L. Owen, Hefin W. Thomas, J. P. Williams. **Cyfanswm: 7**

Gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog:-

Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, Eric Roberts, J. Arwel Roberts. **Cyfanswm: 3**

Y rhesymau a roddwyd tros ganiatáu'r cais oedd bod yna estyniad eisoes yn bodoli ar y safle a'i fod yn cydymffurfio gyda Pholisi 55 Cynllun Lleol Ynys Môn a HP8 y CDU a Stopiwyd.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog.**

**Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, bydd y cais yn cael ei ohirio'n awtomatig i'r cyfarfod nesaf i ganiatáu amser i'r Swyddogion i baratoi adroddiad ar y rhesymau tros ganiatáu'r cais.**

**12.5 38C232A – Cais llawn i godi annedd a gosod gwaith trin carthffosiaeth newydd ar dir ger Pen y Graig, Carreglefn**

Roedd y cais wedi'i gyflwyno i'w benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion oherwydd bod safle'r cais yn ymwneud â thir y Cyngor.

Cynigiodd y Cynghorydd W. J. Chorlton bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd J. P. Williams.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau oedd yn ei adroddiad i'r Pwyllgor.**

Roedd y Cynghorydd T. H. Jones yn dymuno iddo gael ei gofnodi na chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth ar y cais hwn nac yn y pleidleisio arno.

**12.6 40C315 – Gwaith altro ac addasu i Wylfan, Moelfre**

Roedd y cais wedi cael ei gyflwyno i benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion oherwydd mai'r Awdurdod Lleol yw perchennog y safle.

Cynigiodd y Cynghorydd H. W. Thomas bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Eric Roberts.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau oedd yn ei adroddiad i'r Pwyllgor.**

**EITEM YCHWANEGOL**

**12.7 44C288 - Codi tyrbin gwynt gydag uchafswm uchder hwb o hyd at 15 metr, diametr rotor o hyd at 9.7 metr ac uchafswm uchder i flaen y llafn o hyd at 19.85 metr ar dir ym Mhensarn, Rhosgoch**

*Cafwyd datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd T. H. Jones ac aeth allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio ar y cais.*

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol mai'r Adran Gynllunio oedd wedi rhoi'r eitem hon gerbron fel eitem hwyr ac nad oedd wedi'i rhestru ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod. Roedd y gyfraith yn dweud bod yn rhaid egluro natur y brys tros orfod ystyried eitem o'r fath gyda hynny'n cael ei dderbyn gan y Cadeirydd a'i roi i lawr yn y cofnodion. Roedd y Swyddogion Cynllunio wedi nodi y byddai methiant i ddelio gyda'r eitem heddiw yn golygu y byddai yna apêl oherwydd methiant i wneud penderfyniad. Roedd y Cadeirydd yn derbyn y rheswm hwn am y brys a chaniataodd i'r eitem fynd ymlaen.

Rhoddodd y Cadeirydd wahoddiad i Mr. Paul Madden siarad yn y cyfarfod fel un oedd yn gwrthwynebu'r cais. Dywedodd Mr. Madden bod yna nifer o bolisïau cynllunio lleol a rhai Cymreig sy'n berthnasol i'r cais hwn, ac sy'n dangos nad yw'n cydymffurfio gyda Pholisi

Cynllunio Cymru, TAN8 na chwaith y cyfarwyddyd a'r eglurhad a roddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru ynglyn â TAN8 a datblygiadau tyrbinau gwynt. Dywedodd nad oedd yr ymgeisydd wedi cynnal arolwg sŵn oedd yn benodol i'r safle. Mae yna bedair annedd sydd oddeutu 150 metr o'r safle. Roedd yn hynod o annhebygol y byddai tyrbin o'r maint hwn yn y lleoliad hwn yn bodloni arolwg dirgrynu a sŵn i safon ETSU-R-97. Y prif reswm am hyn yw oherwydd agosrwydd yr anheddau a natur fryniog y tir o amgylch y safle. Bydd tonau sŵn yn cael eu bownsio o ochrau'r bryniau a byddai'r aflonyddwch fyddai'n cael ei gynhyrchu gan y tyrbin ei hun yn ei gwneud yn anodd i ddarogan union lefelau'r sŵn ar dirgrynu. Dyma'r rheswm paham y mae Llywodraeth y DU wedi dweud *'the noise impacts of wind farm proposals, including low frequency noise, should be assessed within the planning process on a case by case basis'.* Ymhellach i hyn, roedd y Gweinidog Ynni wedi dweud *'the Department is aware from various sources, including planning decisions, that some expert acousticians at planning inquiries have challenged aspects of the ETSU-R-97 method and its implementation, which is why I have asked Kayes McKenzie to carry out new analysis of the particular issue.'*

Cyfeiriodd hefyd at Fesur Tŷ'r Arglwyddi sy'n argymell cynyddu'r pellter rhwng tyrbinau gwynt ac anheddau oherwydd pryderon iechyd ynglŷn â swn a materion eraill. Anogodd Mr. Madden y Pwyllgor i wrthod y cais.

Dywedodd y Cynghorydd H. W. Thomas ei fod yn credu bod y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn wedi penderfynu na fyddai unrhyw geisiadau am dyrbinau gwynt yn dod gerbron hyd nes bod yr holl waith ymgynghori wedi cael ei gwblhau. Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod asiant yr ymgeiswyr gyda'r cais arbennig hwn wedi dweud wrth yr Awdurdod Cynllunio na fydd unrhyw fanylion pellach yn cael eu cyflwyno ac roedd wedi gofyn am i'r cais gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Dywedodd ei fod yn gobeithio y bydd yna drafodaethau pellach ac y bydd manylion yn cael eu cyflwyno gyda'r ceisiadau eraill am dyrbinau gwynt sydd wedi cael eu gohirio er mwyn caniatáu mwy o amser i'r swyddogion wneud asesiad manwl o'r ceisiadau. Nododd y Swyddog nad yw'r ymgeisydd wedi cyflwyno'r asesiad effaith sŵn sydd ei angen a'i fod wedi dweud y byddai'n mynd i apêl am fethiant i benderfynu os byddai'r Pwyllgor hwn yn gwrthod delio gyda'r cais yn y cyfarfod hwn.

Dywedodd y Cynghorydd K. P. Hughes ei fod yn cytuno gydag argymhelliad y Swyddog o wrthod oherwydd nad yw'r ymgeisydd wedi cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol ynglŷn â'r arolwg sŵn. Eiliodd y Cynghorydd R. L. Owen y cynnig i wrthod.

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog ac efo'r amodau oedd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad i'r Pwyllgor.**

**Y CYNGHORYDD J. ARWEL ROBERTS**
**CADEIRYDD**